**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **18 RHAGFYR 2008** |
| TEITL | **ADNEUON ARIAN PAROD GYDA HERITABLE BANK PLC** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **HYSBYSU'R PWYLLGOR AR GANLYNIADAU ADOLYGIAD O DREFNIADAU RHEOLAETH TRYSORLYS Y CYNGOR YN UNOL Â CHAIS BWRDD Y CYNGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2008, adroddodd y Pennaeth Cyllid i Fwrdd y Cyngor fod yr awdurdod wedi adneuo £4m ym Manc Heritable, oedd wedyn wedi ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr. Mae Gwynedd yn un o dros 100 o awdurdodau lleol, cyrff sector gyhoeddus ac elusenau yn y DU sydd ag adneuon dan fygythiad ar ôl cynilo arian gyda sefydliadau ariannol o Wlad yr Iâ a/neu eu his-gwmnioedd o'r DU.

1.2 Penderfynodd y Bwrdd:

***(i) bod y Cyngor yn parhau i fod mewn cysylltiad cyson gyda CLILC er mwyn sicrhau bod y trafodaethau priodol yn digwydd gyda CLILC a'r Trysorlys, er mwyn dwyn pwysau i geisio adennill y £4miliwn;***
***(ii) bod Archwilio Mewnol yn ganolog i'r gwaith o graffu'r sefyllfa'n fanwl, gan ofyn i'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg cynnal ymchwiliad trylwyr i'r mater a chyflwyno adroddiad priodol i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Rhagfyr.***
***(iii) Bod yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio i gynnwys adolygiad o rôl yr ymgynghorwyr yn y penderfyniadau perthnasol;***
***(iv) Gofyn i'r Pennaeth Cyllid gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf, a gyflwynwyd i aelodau Bwrdd y Cyngor, i holl aelodau'r Cyngor ar ffurf llythyr.***

1.3 Pwrpas yr adroddiad yma yw cyfleu canlyniadau rhan (ii) a (iii) o'r penderfyniad uchod. Hynny yw, i adrodd ar ganlyniad yr adolygiad o'r buddsoddiad gyda Heritable, gan gynnwys adolygiad o rôl yr Ymynghorwyr.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae gan Cyngor Gwynedd drefn hir-sefydledig ar gyfer buddsoddi arian parod dros ben am gyfnod byr y gallai fod yn ei feddiant. Er enghraifft, mae mantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2008 yn dangos fod ganddo £77,065,000 o fuddsoddiadau tymor-byr (ar gost):

| | **Cost (£'000)** |
|---|---|
| Adneuon Galadwy | 5,000 |
| Arian | 7,500 |
| Adneuon Cyfnod Penodol | 64,565 |
| | 77,065 |

*Fynhonnell: Datganiad y Cyfrifon 2007-08*

2.2 Nid yw hyn yn golygu fod gan y Cyngor £77,065,000 o reserfau ar gael ar y diwrnod hwnnw; roedd y rhan helaeth o'r arian yma wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant refeniw neu gyfalaf ac wedi ei fuddsoddi am dymor byr (am gyfnodau gosodedig o rhwng 1 diwrnod a sawl wythnos) er mwyn cynhyrchu incwm llog ar gyfer yr awdurdod. Bydd swm yr arian sydd ar gael i'r Cyngor ei adnau yn amrywio o dydd i ddydd, yn ddibynol ar amseru taliadau cyflog a chredydwyr, incwm grant ayb. Byddai felly'n anghywir i awgrymu fod gan y Cyngor dros £77m o "arian sbâr" wedi ei guddio mewn reserfau.

2.3 O ystyried swm yr arian y mae'r Cyngor yn delio ag ef, mae'n ddarbodus i'r awdurdod fuddsoddi unrhyw arian dros ben sydd ganddo ar unrhyw ddiwrnod gydag un neu fwy o sefydliadau ariannol. Mae'r cyfrifoldeb am hyn yn gorffwys gyda swyddogion yn y Gwasanaeth Cyllid, sydd yn proffwydo llif arian yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd yn cael ei dderbyn am incwm a gwriant arfaethedig. Rhaid i unrhyw sefydliadau a ddefnyddir ymddangos ar Restr y Cyngor o Wrthbartion Cymeradwy, sef rhestr o fanciau a chymdeithasau adeiladu cymeradwy y mae'r Cyngor wedi ei bennu'n addas ar gyfer adnau.

2.4 Ar 8 Medi 2008 adneuodd y Cyngor £4m o arian parod am gyfnod penodol o 136 diwrnod (hyd at 22 Ionawr 2009) gyda Heritable Bank plc, sefydliad oedd wedi ei restru ar y Rhestr o Wrthbartion Cymeradwy fel bod yn fanc addas ar gyfer adneuon. Ar 7 Hydref 2008 gwnaeth y Llys Sesiwn orchymyn gweinyddiaeth mewn perthynas â Heritable Bank plc. Gan fod y banc yn nwylo'r gweinyddwyr, ni all y Cyngor dynnu arian o'i gyfrif (ond ni fyddai wedi gallu gwneud hynny tan 22 Ionawr 2009 beth bynnag) a bydd y Cyngor yn cael ei drin fel un o gredydwyr ansicredig banc Heritable yn y weinyddiaeth.

2.5 Yn ei adroddiad brys i'r Bwrdd, nododd y Pennaeth Cyllid:

- Ei fod wedi cynnal ymchwiliad brys ei hun i'r sefyllfa, a'i fod yn fodlon fod y Cyngor wedi gweithredu'n briodol pryd roddwyd £4m ym manc Heritable. Pwysleisiodd yr adneuwyd yr arian yn unol â Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, a thrwy ddilyn côd [ymarfer] CIPFA [ar gyfer Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus], gan ledaenu risg a dibynnu ar "credit ratings" cydnabyddedig.
- Fod CLILC yn lobio'r Llywodraeth, a bod Llywodraeth San Steffan wedi rhewi asedau Prydeinig banciau Heritable a Landsbanki, a gallasai hynny helpu Gwynedd i adennill yr arian. Ymddengys erbyn hyn bod dros 100 o awdurdodau lleol wedi buddsoddi tua £800m yn y banciau perthnasol.

- Bod cryn dipyn o wybodaeth anghywir ar led, ac roedd y Pennaeth yn awyddus i gadarnhau'r ffeithiau canlynol:-
  - bod "rating" rhai banciau Gwlad yr Îa, sef Glitnir a Kaupthing wedi'u hisraddio ers Mai (oherwydd risg o laniad caled yn economi'r Ynys Ia);
  - bod "credit rating" 'A' (buddsoddiad cryf, yn hytrach na chanolig neu hapfasnachol) gan Heritable ar 8 Medi, ac ar sail hynny, rhoddwyd arian yno;
  - cafodd "rating" Landsbanki a Heritable eu hisraddio ar 30 Medi;
  - nad oes modd galw arian yn ôl, unwaith mae arian wedi'i adnau am gyfnod; ac
  - ni ddaru Cynghorau eraill "dynnu arian allan", roeddynt yn ffodus (i fedru gwneud penderfyniad gwybodus os i ail fuddsoddi) os ddaru tymor ei benthyciad orffen ar ddiwedd mis Medi; ond
  - bod rhai Cynghorau wedi derbyn arweiniad rhagweithiol gan eu ymgynghorwyr nhw cyn hynny, i beidio adnau ychwaneg o arian ym manciau Gwald yr Îa.
- Bod £4 miliwn yn swm mawr o arian, ond bod y Cyngor yn gorff mawr, sy'n cynllunio i wario tua £500 miliwn yn 2008/09, a bod lefelau priodol o gronfeydd wrth gefn er mwyn medru delio gyda'r sefyllfa yma.
- Bod banc Heritable yn nwylo gweinyddwyr, nid datodwr,ac nid oeddynt wedi "defaultio" eto, ond ei bod yn rhy gynnar i asesu'r risg.
- Pryd roddir ystyriaeth i Strategaeth Ariannol 2009/10, rhagwelir argymell rhoi £4m o falansau cyffredinol o'r neilltu fel darpariaeth hyd nes daw'n glir os fydd modd adennill yr arian.
- Fod y Cyngor wedi cymryd camau yn hwyr ym Medi i geisio amddiffyn ei arian, gan isafu'r risg drwy ddefnyddio banciau mwy dibynadwy, wrth i'r arwyddion ymddangos. Yn anffodus, roedd hynny ar ôl i'r £4 miliwn gael ei fuddsoddi gyda'r Heritable Bank tan Ionawr 2009.
- Y bydd yn troi pob carreg, gan gynnwys cymryd camau cyfreithiol fel bo angen, i geisio adennill 'deposit' y Cyngor.

## 3. GWEITHGAREDDAU RHEOLAETH TRYSORLYS

3.1 Mae'r Uned Rheolaeth Trysorlys a Buddsoddiadau yn dîm bychan wedi ei leoli o fewn Uned Cyfrifwaith Ganolog y Gwasanaeth Cyllid. Mae'r Uned yn cael ei arwain gan y Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau – sydd wedi bod yn absennol ar gyfnod mamolaeth ers Chwefror 2008 – sydd â'i swydd wedi ei lenwi dros dro gan swyddog o Uned Polisi y Gyfadran Adnoddau. Y Pennaeth Cyllid yw rheolwr llinell uniongyrchol y Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau. Mae'r Uned hefyd yn cynnwys Uwch Dechnegydd, sy'n gyfrifol am adnau llif arian y Cyngor, a Swyddog Buddsoddiadau.

3.2 Yr Uwch Dechnegydd sy'n cyflawni'r tasg dydd-i-ddydd o weithredu strategaethau a pholisiau buddsoddi'r Cyngor. Ef sydd yn cyflawni asesiad dyddiol o lif arian y Cyngor, a'r adnau o unrhyw arian dros ben sydd gan y Cyngor gyda sefydliadau ariannol amrywiol (fel arfer am gyfnodau penodol) ar ran y Gwasanaeth Cyllid. Gall cyfnodau'r adneuon hyn amrywio o ychydig oriau i sawl mis.

3.3 Mae'r Cyngor wedi penodi Sector Treasury Services Ltd – is-gwmni o'r Capita Group – fel cynghorwyr trysorlys i'r Cyngor er ar amser y archwiliad, ni allai swyddogion o fewn y Gwasanaeth Cyllid gadarnhau mewn manylder yr hyn y mae Sector wedi eu contractio â'r Cyngor i'w ddarparu. Nid oedd y gontract gyda Sector wedi ei ddogfennu mewn manylder; mae defnydd Sector wedi bod yn ei le ers sawl blwyddyn. Dangosodd adolygiad o'r anfonebau a daliwyd i Sector eu bod wedi eu talu i ddarparu "Treasury Consultancy Services". Ymysg y gwasanaethau y gwelwyd eu bod yn ei ddarparu y mae gwybodaeth ynglyn â graddau credyd sefydliadau ariannol (arlein ac mewn rhestrau gwrthbartion misol), darparu seminarau, cynghori swyddogion a draparu nodiadau briffio ar faterion rheolaeth trysorlys.

## 4. STRATEGAETH FUDDSODDI BLYNYDDOL

4.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ariannu Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) 2003 [SI 3239 (W.319)] yn rhoi gorfodaeth ar awdurdodau lleol i ystyried cyhoeddiad CIPFA *Treasury Management in the Public Services: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Notes*. Mae côd CIPFA yn berthnasol i'r holl ystod o faterion rheolaeth trysorlys, gan gynnwys egwyddorion sylfaenol ar gyfer gwneud a rheoli buddsoddiadau.

4.2 Dan ei bwerau yn rhan 15(1)(a) yn Neddf Llywodraeth Leol 2003, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau Statudol ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol. Mae gofyn ar awdurdodau lleol dan rhan 15 Deddf Llywodraeth Leol 2003 i dalu sylw i'r canllawiau hyn.

4.3 Yn ôl y Cynulliad, "nod cyffredinol y polisi yw bod awdurdodau lleol yn buddsoddi'n ddarbodus ar ran eu cymunedau unrhyw warged sydd ganddynt. Mae'r canllaw yn pwysleisio y dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag ar wneud elw. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y dylai awdurdodau anwybyddu'r elw. Bydd yn briodol chwilio am y llog neu'r elw uchaf sy'n gyson â'r lefel briodol o ddiogelwch a hylifedd."

4.4 Mae Canllawiau'r Cynulliad ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol wedi ei gynnwys yn llawn yn Atodiad 1. Gellir crynhoi'r prif bwyntiau sydd yn berthnasol i'r adolygiad hwn fel a ganlyn:

- Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, bydd yr awdurdod lleol yn llunio Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Gall ei newid unrhyw bryd. Rhaid i'r Strategaeth, unrhyw newidiadau a thefniadau dirprwyo priodol gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn (neu ar lefel gyfatebol mewn awdurdod heb Gyngor) a byddant ar gael i'r cyhoedd eu gweld
- Bydd y Strategaeth yn disgrifio polisïau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiadau diogel a hylifol yn hytrach nag ar wneud elw.
- Bydd y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn datgan:
  - o sut y caiff statws credyd uchel ei ddiffinio at ddiben y categorïau buddsoddi y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol.
  - o bod y statws credyd yn mynd i gael ei fonitro a'r hyn y dylid ei wneud os bydd y statws yn newid.
- Bydd asiantaeth statws credyd yn un o'r tri chwmni canlynol:
  - o Standard and Poor's;
  - o Moody's Investors Service Limited;
  - o Fitch Ratings Limited.
- Bydd y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer penderfynu ar y cyfnodau hwyaf y gellir yn ddarbodus ymrwymo arian.

4.5 Mae cyhoeddiad CIPFA *Treasury Management in the Public Services* (cyfeirir ato ym mharagraff 4.1 uchod) yn dangan ymhellach "yn arbennig, dylai'r Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol ddatgan polisi'r awdurdod ar ddefnydd statws credyd, y trefniadau ar gyfer penderfynu a chyfyngu'r defnydd o fuddsoddiadau o risg uwch, ac ar gyfer hylifedd buddsoddiadau".

4.6 Gall yr archwiliwr gadarnhau fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r prif ofynion fel a amlinellir yn rhannau 4.4 a 4.5 uchod:

- Cafodd Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2008/09 ei gymeradwyo gan Fwrdd y Cyngor ar 21 Chwefror 2008, ac yna gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2008. Mae'r Strategaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o raglenni'r cyfarfodydd hyn fel y ceir ar wefan yr Awdurdod.
- Mae'r Strategaeth yn datgan "Amcan polisi cyffredinol y Cyngor yw bod yn ddarbodus wrth fuddsoddi balansau'r trysorlys. Mae gwarantu cyfalaf a hylifedd buddsoddiadau yn hytrach na'u cynnyrch yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn anelu i wneud yr elw mwyaf posibl ar ei fuddsoddiadau yn gyfesur â lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd."
- Mae'r Strategaeth yn datgan:

**Buddsoddiadau Penodedig:**
Defnyddir Sterling ar gyfer pob buddsoddiad o'r fath, **gydag aeddfediad o hyd at flwyddyn ar y mwyaf**, gan gyrraedd y isafswm meini prawf credyd 'uchel' ble'n berthnasol.

| | **Isafswm Meini Prawf Credyd 'Uchel'** | **Defnydd** | **Uchafswm Cyfnod** |
|---|---|---|---|
| Adneuon Cyfnod Penodol gyda Llywodraeth Leol | Diogel iawn er nad ydi Awdurdodau Lleol yn cael eu hasesu ar gyfer statws credyd. | Mewnol | 3 mis |
| Adneuon Cyfnod Penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu gan gynnwys adneuon galwadwy gydag aeddfediad llai na blwyddyn. | Isafswm F1 (Fitch) neu P1 (Moody's), tymor byr wedi ei gefnogi gan statws credyd isafswm tymor hir sef A- (Fitch) neu A3 Moody. | Mewnol | Blwyddyn |

**Buddsoddiadau Amhenodedig:**
Bydd uchafswm o £20 miliwn i'w fuddsoddi mewn buddsoddiadau amhenodedig.

| | **Isafswm Meini Prawf Credyd** | **Defnydd** | **Uchafswm £ o'r holl fuddsoddiadau** | **Uchafswm Cyfnod Aeddfedu** |
|---|---|---|---|---|
| Adneuon Cyfnod Penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu gan gynnwys adneuon galwadwy gydag aeddfediad hwy na blwyddyn | Pan fo'n amser lleoli adneuon am gyfnodau hwy na blwyddyn, bydd swyddogion yn sicrhau fod y statws credyd hir dymor un ai yn AA (Fitch) neu Aa2 (Moody's) neu'n uwch na hyn. | Mewnol | £20 miliwn | 3 mlynedd |

- Mae'r Strategaeth yn datgan fod y "Cyngor yn defnyddio statws credyd a gyhoeddwyd gan Fitch. Fodd bynnag, os nad oes gan wrthbarti statws Fitch, bydd statws Moody yn cael ei ddefnyddio. Bydd pob statws credyd yn cael ei fonitro'n fisol. Os yw statws credyd gwrthbarti yn cael ei israddio ac o ganlyniad ddim yn cyrraedd gofynion lleiafswm y Cyngor, bydd unrhyw ddefnydd arfaethedig o'r gwrthbarti hwnnw fel buddsoddiad newydd yn cael ei wrthod yn syth."

4.7 Mae Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol 2008/09 wedi ei gynnwys fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn. Gwelwyd fod y Strategaeth yn seiliedig i raddau helaeth ar dempled a ddarparwyd gan Sector Treasury Services Ltd gan ymgorffori amrywiol anghenion statudol, ond mae rhai rhannau yn benodol i Cyngor Gwynedd – yn arbennig felly chwant risg y Cyngor a lefel y wyliadwriaeth (gweler rhan 4.6, ail pwynt bwled) a'r Rhestr o Wrthbartion Cymeradwy.

4.8 Mae swyddogion o'r Gwasanaeth Cyllid wedi cadarnhau mai'r Rhestr o Wrthbartion Cymeradwy sydd wedi ei gynnwys yn atodiad pob Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol yw rhestr y flwyddyn flaenorol gydag unrhyw sefydliadau ariannol nad ydynt bellach yn cyrraedd isafswm y gofynion wedi eu tynnu oddi yno a sefydliadau eraill wedi eu cynnwys yn eu lle. Er enghraifft, tynnwyd banc Northern Rock o restr 2007/08 ar gyfer 2008/09 a cafodd Cymdeithas Adeiladu Scarborough a banc tramor DePFa Bank (Gweriniaeth Iwerddon) eu rhoi ar y rhestr yn ei le.

4.9 Ymddangosodd Banc Heritable a Banc Glitnir o Wlad yr Iâ ar y Rhestr o Wrthbartion Cymeradwy am y tro cyntaf yn 2007/08 wedi iddynt (ynghyd â HSH Norbank o'r Almaen, Banca Monte dei Paschi di Siena o'r Eidal and Irish Intercontinental Bank o Weriniaeth Iwerddon) gymryd lle Banco Bilbao Vizcaya Argentaria o Sbaen a Citibank a Bank of America, ill dau o'r Unol Daleithiau, ar y rhestr.

**Casgliadau**

**Mae Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol y Cyngor yn cydymffurfio â canllawiau statudol Canllawiau Cenedlaethol Cymru a Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoddus.**

**Mae Rhestr o Wrthbartion Cymeradwy y Cyngor yn seiliedig ar restr y flwyddyn flaenorol, wedi ei addasu pan fo sefydliadau yn cael eu tynnu ossi yno pan yn syrthio'n is nae'r trothwy isafswm, a caiff ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn. Ychwanegwyd Heritable fel gwrthbarti yn 2007, ar sail eu statws credyd priodol.**

## 5. BANC HERITABLE

5.1 Mae Heritable Bank plc yn gwmni Prydeinig, wedi ei gofrestru yn yr Alban (rhif cofrestru SC000717). Ymgorfforwyd y cwmni gwrieddiol yn yr Alban yn 1877. Pan aeth i mewn i weinyddiaeth roedd 100% o'r cyfranddaliadau yn Heritable ym mherchnogaeth cwmni Landsbanki Holdings (UK) plc, gan wneud Heritable yn is-gwmni o Fanc Landsbannki o Wlad yr Iâ.

5.2 Gellir diffinio statws credyd fel "asesiad gan gyfundrefnau proffesiynol o allu entiti i wasanaethu a ad-dalu oblygiadau dyled yn amserol". Fel y nodir uchod, er fod cwmnioedd megis Moody's a Fitch yn paratoi statws credyd ar gyfer banciau ayb, mae'r fformiwlau a ffynhonellau gwybodaeth a ddefnyddir ganddynt yn gyfrinachol a masnachol sensitif. Mae'r union wybodaeth a ddefnyddwyd i sgorio banc Heritable felly yn aneglur, er disgwylir fod dibyniaeth helaeth wedi ei roddi ar yr wybodaeth ym mantolen y Banc yn ei gyfrifon diweddaraf. Mae'r cyfrifon diweddaraf sydd ar gael ar gyfer banc Heritable am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2007. Nid yw dadansoddiad o fantolen y cwmni yma ar y dyddiad hwnnw yn awgrymu cwmni mewn perygl.

5.3 Os oedd statws credyd Fitch yn seiliedig ar ffigyrau'r fantolen, mae'n rhesymol fod y statws wedi parhau yn gymharol iach yn gynnar yn 2008. Mae Heritable wedi ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr fel canlyniad o'i safle o fewn strwythr grwp Landsbanki ac unrhyw symudiad o asedion yn ystod 2008.

## 6. DIBYNIAETH AR STATWS CREDYD

6.1 Ym Mawrth 2008, nododd Panel Rheolaeth Trysorlys CIPFA:

> ***Feedback from the Treasury Management Forum included a discussion around the role of credit ratings and how much reliance can be placed upon them. Whilst it is recognized that credit ratings do offer an independent objective assessment of potential counterparties, in using credit ratings practitioners should always ensure they are being used appropriately. The Treasury Management Code requires authorities to disclose their use of credit rating agencies and the reliance placed upon them. [Gweler paragraff 4.5 above].***

6.2 Er fod y cyngor yma wedi ei gynnwys mewn newyddlen oedd wedi ei gyhoeddi ar ôl i Strategaeth Fuddsoddi 2008/09 gael ei gymeradwyo, gellid fod wedi ystyried y cyngor yma wedi hynny, gan ei fod yn rybudd penodol y dylid rhoi ystyriaeth i ffactorau eraill.

6.3 Yn ei Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2006/07 a 2007/08 ill dau, roedd y Cyngor wedi nodi "Mae'r Cyngor yn **dibynnu** ar statws credyd a gyhoeddir gan Fitch". Fodd bynnag, yn strategaeth 2008/09 roedd y geiriad wedi newid i "Mae'r Cyngor yn **defnyddio** statws credyd a gyhoeddwyd gan Fitch". Er hyn, mae adolygiad o'r adneuon a wnaethpwyd yn awgrymu fod y dibyniaeth ar states credyd Fitch wedi aros mor gryf ag erioed yn ystod 2008/09 yn y cyfnod yn arwain i fyny i'r adnau arian parod gyda Heritable. Fel y nodir ym mharagraff 4.7, mae Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol y Cyngor yn seiliedig i raddau helaeth ar dempled a ddarperir gan Sector Treasury Management Ltd.

6.4 Ar adeg yr adnau gyda Heritable, roedd swyddogion y Cyngor wedi gweithredu o fewn llythyren y Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol, sy'n datgan mai'r isafswm statws credyd ar gyfer Adneuon Cyfnod Penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu gan gynnwys adneuon galwadwy gydag aeddfediad llai na blwyddyn oedd isafswm o statws tymor byr Fitch F1 wedi ei gefnogi gan statws credyd isafswm tymor hir o A-. Roedd y Rhestr Gwrthbartion Misol a ddarparwyd gan Sector ar 5 Medi 2008 yn datgan fod gan Heritable statws tymor byr o F1 a statws tymor hir o A.

6.5 Er gwaethaf datgan yn Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol ei fod erbyn 2008/09 yn "defnyddio" yn hytrach na "dibynnu ar" y statws credyd a ddarparwyd, nid oes sôn yn y strategaeth o'r angen i wrando ar rybuddion a ddarperir i gynilwyr y tu hwnt i'r statws credyd. Ni roddwyd ystyriaeth i ragolygon negyddol ynglyn â banc Heritable, yn arbennig felly dau fwletin a ddarparwyd gan Sector ar 1 Ebrill 2008 a 13 Mai 2008:

- Credit Rating Update 299 (1 Ebrill 2008) oedd yn rhybuddio fod Fitch wedi rhoi statws Tymor Hir a Thymor Byr Heritable Bank, is-gwmni Prydeinig Landsbanki Islands, ar "Rating Watch Negative".
- Credit Rating Update 315 (13 May 2008) oedd yn datgan fod Fitch Ratings wedi cymryd camau statws ar 3 banc o Wlad yr Iâ a dau ou his-gwmniau (gan gynnwys Heritable). Roedd yr holl sefydliadau wedi eu tynnu oddi ar "Rating Watch Negative" ac wedi derbyn "Negative Outlook". **Fodd bynnag, roeddynt hefyd yn cadarnhau fod Statws Tymor Hir Heritable yn aros yn 'A', a'r statws tymor byr yn aros yn "F1".**

6.6 Roedd y Rhestr Gwrthbartion Misol a ddarparwyd gan Sector ar 5 Medi 2008 yn datgan fod gan Heritable statws tymor byr o F1 a statws tymor hir o A. Fodd bynnag, roedd hefyd yn datgan "Fitch ratings have placed the long term ratings on negative outlook. Please bear this in mind when placing new deposits with the bank until such time when the rating review is completed." Mae hyn yn awgrymu er fod statws Heritable yn F1 (tymor byr) ac A (tymor hir), fod y statws yma o dan adolygiad ac y gallent ddirywio – ond nid o reidrwydd ar unwaith.

6.7 Ffactor allweddol yng nghwymp y sector fancio yng Ngwlad yr Iâ oedd methiant economi'r wlad honno i gefnogi ei sector fancio. Mewn cyfweliad, cadarnhaodd yr Uwch Dechnegydd fod yr Uned Rheolaeth Trysorlys a Buddsoddiadau yn ymwybodol o'r gythrwfl yn sector fancio Gwlad yr Iâ, yn dilyn aeddfedu'r adnau gyda Glitnir yn Awst 2008 ni wnaed adneuon pellach â banciau Gwlad yr Iâ. Mae'r Uwch Dechnegydd wedi cadarnhau hefyd er fod Banc Heritable wedi ei gynnwys ar Restr y Cyngor o Wrthbartion Cymeradwy fel bank y Deyrnas Unedig nid oedd yn ymwybodol ei fod yn is-gwmni llawn o fanc arall o Wlad yr Iâ, sef Landsbanki, tan ar ôl i Heritable gael ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr. Gallai'r diffyg ymwybyddiaeth ymddangosiadol fod perchnogaeth Heritable yng Ngwlad yr Iâ fod wedi cyfrannu at y penderfyniad i adneuo arian yn y banc penodol hwn yn ystod Medi 2008.

6.8 Roedd sawl sefydliad arall yn ogystal â Heritable wedi derbyn rhagolwg negyddol ar y pryd, ac mae'r rhan fwyaf o'r baniau mawrion wedi cael eu rhoi ar "negative watch" ar rhyw adeg neu'i gilydd.

6.9 Pan ymholwyd yr Uwch Dechnegydd am gynnwys y "Credit Rating Briefings" a ddarperir gan Sector (e.e. fel a amlinellir yn rhan 6.5 uchod) sydd yn datgan yn glir fod Heritable yn is-gwmni i Landsbanki, fe ymatebodd ei fod ond yn cael ei wneud yn ymwybodol o gynnwys y Nodiadau Briffio os oedd y Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau yn dwyn i'w sylw materion oedd yn haeddu eu nodi. Mae'r Pennaeth Cyllid wedi pwyntio allan mai un rheswm am hyn yw'r nifer uchel o gyfryw nodiadau briffio. Roedd 16 nodyn briffio statws credyd wedi eu darparu yn y 38 diwrnod gwaith rhwng 1 Ebrill 2008 ac 13 Mai 2008 yn ychwanegol i oddeutu 3 o nodiadau briffio eraill pob dydd.

6.10 Mae Archwilio Mewnol wedi cael eu hysbysu gan awdurdod lleol arall – sydd hefyd yn defnyddio Sector fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys – eu bod wedi ymatal rhag adneuo arian gyda pob banc o Wlad yr Iâ, gan gynnwys Heritable, fel canlyniad i'r "negative ratings watch" a'r rhagolwg negyddol dilynol y cyfeirir atynt yn rhan 6.5 uchod. Fodd bynnag, roedd gan dros 100 o awdurdodau lleol arian wedi eu adneuo gyda sefydliadau o Wlad yr Iâ, neu eu his-gwmnioedd, yn seiliedig ar eu statws credyd cymeradwy.

6.11 Nid yw pob gwrthbarti sydd wedi eu rhestru yn y Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol wedi eu cynnwys ar restr Sector o gymerwyr adneuon, er fod gwybodaeth pellach i'w gael ar wefan Sector. O'r sefydliadau hynny sydd a ymddangos ar y rhestr argraffiedig o gymerwyr adneuon ar 5 Medi 2008, pan roddwyd £4m yn Heritable Bank Ltd y sefydliad hwn – ynghyd ag un sefydliad arall sydd ddim ar restr y Cyngor – oedd â'r statws credyd isaf o unrhyw fanc DU ar y rhestr, sef statws credyd A.

6.12 Gall hyn greu'r argraff fod yr adnau â Heritable, er gwaethaf cydymffurfio â Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol y Cyngor yn nhermau'r isafswm statws credyd, ddim o reidrwydd – o ystyried yr opsiynau eraill oedd ar gael ar y pryd – yn cydymffurfio ag ysbryd y datganiad mai "polisi cyffredinol y Cyngor yw bod yn ddarbodus wrth fuddsoddi balansau'r trysorlys. Mae gwarantu cyfalaf a hylifedd buddsoddiadau yn hytrach na'u cynnyrch yn flaenoriaeth i'r Cyngor."

6.13 Fodd bynnag, i roi hynny yn ei gyd-destun, roedd y rhan fwyaf o gymdeithasau adeiladu y DU hefyd â statws 'A' – yr un statws â banc Heritable – ym Medi 2008.

6.14 Ar 8 Medi 2008, yn ôl y daflen llif arian, roedd gan yr Uwch Dechnegydd falans arian parod o £20.155m i'w adneuo. Yn seiliedig ar ragolygion llif arian, rhoddywd £7.155m mewn cyfrif dros nos. O'r helyw o £13m, adneuwyd £4m gyda banc Heritable at raddfa llog o 5.91%, gyda'r £9m arall wedi ei ledaenu ar draws 3 cymdeithas adeiladu oedd yn cynnig graddfeydd llog yn amrywio rhwng 5.76% a 5.87%. Roedd disgwyl i'r adneuon hyn i gyd aeddfedu yn Ionawr 2009.

6.15 Y prif reswm dros roi cyfyngiad ar swm yr arian y gellir ei osod mewn unrhyw un sefydliad yw er mwyn lledaenu'r risg potensial a'i fod wedi isafu petai un sefydliad yn methu.

6.16 Tra fod rhai trafodion yn cael eu gwneud gyda banciau yn uniongyrchol gan yr Uwch Dechnegydd, gwneir y rhan fwyaf try ddefnydd broceriaid. Rôl y broceriaid yw cysylltu â banciau ar ran y Cyngor er mwyn ceisio cael y ddêl orau i'r Cyngor o ran cynnyrch.

6.17 Cadarnhadodd yr Uwch Dechnegydd mewn cyfweliad y byddai, ar adeg y adnau â Heritable, wedi darparu rhestr i'r broceriaid o'r holl fanciau ar Restr y Cyngor o Wrthbartion Cymeradwy, a'r swm y gellir ei adneuo gyda hwy, o ystyried y swm yr oeddynt eisioes yn ei ddal. Ni fyddai'r rhestr hwn yn cynnwys statws credyd cymharol y sefydliadau hyn nac unrhyw rybuddion am eu rhagolygon. Mae'n bwysig nodi hefyd tra fod uchafswm adnau ar gyfer pob sefydliad, mae llawer o'r banciau mwy gydag isafswm adnau, neu hwyrach fod sawl sefydliad ddim yn chwilio i fenthyca arian ar ddiwrnod penodol, gan leihau ymhellach yr opsiynau oedd ar gael.

6.18 Unwaith y derbynir dyfyniadau graddfeydd llog y gwahanol sefydliadau oddi wrth y broceriaid, nid oes dadansoddiad pellach er mwyn cydbwyso gwobr gyda risg, ar y sail fod statws credyd y banciau eisioes wedi ei ddyfarnu i fod ddigon uchel i gydymffurfio ag anghenion y Strategaeth Buddsoddiad Blynyddol. Hynny yw, ar 8 Medi nid oedd proses yn ei le i gydbwyso'r gwobrau potensial oedd yn deillio o raddfeydd llog uwch Heritable yn erbyn y risg uwch o fethiant yn yr ystyr mai'r Banc hwn oedd y lleiaf diogel o'r banciau ar restr y Cyngor ac roedd rhagolwg negyddol yn ei erbyn.

6.19 Mae'r Uned Rheolaeth Trysorlys a Buddsoddiadau wedi gallu arddangos fod statws credyd a rhagolwg pob adnau unigol ers i Heritable gael ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr wedi cael ei ymchwilio cyn ymgymymryd â'r dradodaeth. Mae nifer y sefydliadau y gall yr awdurdod fuddsoddi â hwy wedi lleihau, ond i lefel sy'n parhau i ganiatau'r gallu i adneuo arian â nifer amrywiol o sefydliadau.

<u>**Casgliadau**</u>

**Roedd yr Uned Rheolaeth Trysorlys a Buddsoddiadau yn ymwybodol o'r gythrwfl o fewn sector bancio Gwlad yr Iâ, ac ar ôl i'r adnau â banc o Wlad yr Iâ (Glitnir) aeddfedu yn Awst 2008 ni wnaethpwyd adneuon pellach â'r sefydliad hwn.**

**Roedd diffyg ymwybyddiaeth ymysg nifer o staff allweddol fod Heritable Bank plc, banc sydd wedi ei gofrestru yn y DU, yn is-gwmni llawn o fanc o Wlad yr Iâ, sef Landsbanki. Mae hyn yn codi pryder ynglyn â'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn effeithiol o fewn rhai rhannau o'r Gwasanaeth Cyllid. Mae'r Uned Rheolaeth Trysorlys a Buddsoddiadau wedi adnabod yr angen i wella cyfathrebu gwybodaeth a dderbynir gan Ymgynghorwyr, ac wedi gweithredu i gynyddu ymwybyddiaeth sy'n effeithio ar benderfyniadau buddsoddi.**

**Cyn Hydref 2008, roedd y Gwasanaeth Cyllid wedi adneuo arian ar y sail fod unrhyw sefydliad ariannol oedd yn cyrraedd yr isafswm statws credyd yn ddiogel. Fel canlyniad, roedd y Gwasanaeth Cyllid yn ystyried fod adnau gydag unrhyw sefydliad oedd â statws digonol yn cydymffurfio â polisi ddatganedig y Cyngor mai ei flaenoriaeth wrth fuddsoddi yw gwarantu cyfalaf a hylifedd buddsoddiadau yn hytrach na chynnyrch.**

**Mae'r Gwasanaeth Cyllid wedi ymateb yn bositif i weinyddiaeth Heritable trwy adolygu ei weithrediadau ar unwaith, gan adnabod yr angen i wneud y Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol yn fwy soffistigedig gan flaenoriaethu diogelwch adneuon yn hytrach nag uchafu cynnyrch.**

**Er fod angen mireinio ar y technegau rheoli risg a ddefnyddir gan yr Uned Rheolaeth Trysorlys a Buddsoddiadau, mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr archwiliwr yn dangos nad oes unrhyw sail i awgrymiadau yn y cyfryngau fod y Cyngor wedi "gamblo" – h.y. wedi hapchwarae – gydag arian cyhoeddus. Er gwaethaf cael ei arddangos i fod yn seiliedig ar wybodaeth anghyflawn, gwnaethpwyd yr adnau gyda Heritable ar y pryd ar y sail fod Heritable yn sefydliad diogel. Roedd newid statws Heritable dros nos o 'A' i statws o methu talu wedi digwydd yn ystod cythrwfl anarferol a digynsail yn y system fancio fydeang.**

## 7. GWEITHREDIADAU A ARGYMHELLIR

7.1 Dylid datblygu methodoleg dau-gam ar gyfer gosod adneuon arian parod gyda sefydliadau ar y Rhestr o Wrthbartion Cymeradwy, yn hytrach na'r drefn gyfredol o ddewis y cynnyrch uchaf gan unrhyw sefydliad sy'n cwrdd ag isafswm safon. Byddai'r cam cyntaf fel y mae nawr, gyda'r graddfeydd llog yn cael eu derbyn gan froceriaid ar gyfer ystod o sefydliadau. Yr ail gym fyddai methodoleg sy'n cymharu'r graddfeydd llog a gynigir gan y broceriaid gyda risg cymharol pob un.

7.2 Dylai'r Pennaeth Cyllid roi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau fod yr wybodaeth a dderbynir gan yr Ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys ynglyn ag unrhyw sefydliad sydd ar y Rhestr o Wrthbartion Cymeradwy – ac unrhyw sefydliad arall allai fod "wrth gefn" – yn cael ei rannu â'r holl bersonel allweddol.

7.3 Dylai'r Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol datgan pa wybodaeth pellach – gan gynnwys rhagolygon statws a "ratings watches" – fydd yn cael eu hystyried ynghyd â statws credyd ar gyfer pob sefydliad.

7.4 Rhaid i'r Cyngor fuddsoddi ei adneuon arian parod ar sail rheolaeth risg gadarn. Nid yw hyn yn golygu bod yn wrthun i risg; ni ddylai'r Cyngor gael ei orfodi i roi ei holl adneuon arian mewn cyfrwng sydd â'r diogelwch uchaf os yw'r enillion a gynigir gan y cyfryngau hyn yn golygu fod yr awdurdod ar ei golled mewn gwir dermau gan fod y cynnyrch yn is na graddfa chwyddiant. Dylid adlewyrchu hyn yn y Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol.

## 8. CYDNABYDDIAETH

8.1 Hoffai'r archwiliwr ddiolch i'r swyddogion perthnasol am eu cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad hwn, ac yn arbennig i'r Pennaeth Cyllid, Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau Dros Dro a'r Uwch Dechnegydd.

## 9. ARGYMHELLIAD

9.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar yr ymchwiliad i'r buddsoddiad yn Banc Heritable, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisioes wedi'u cyflwyno i reolwyr y Gwasanaeth Cyllid er gweithrediad.

**Atodiad 1 – Canllaw i Lywodraeth Leol ar Fuddsoddi**

Cyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 15(1)(a) Deddf Llywodraeth Leol 2003

**Cymhwysiad**

1. Dosberthir y canllaw hwn i bob awdurdod lleol fel y'i diffinnir yn adran 23 Deddf 2003 ac yn y rheoliadau a wnaed o dan yr adran honno. Daw i rym ar 1 Ebrill 2004.

2. Cyhoeddir y canllaw hwn hefyd ar gyfer cynghorau cymuned ac ymddiriedolwyr siarter. Nodir ym mharagraffau 13-15 sut y bydd yn gymwys iddyn nhw.

**Diffiniadau**

3. Yn y canllaw hwn, ystyr Deddf 2003 yw Deddf Llywodraeth Leol 2003.

4. Ystyr buddsoddiad yw trafodiad sy'n dibynnu ar y pwer yn adran 12 Deddf 2003 ac sy'n cael ei gofnodi yn y fantolen o dan y pennawd buddsoddiadau o fewn asedau cyfredol neu fuddsoddiadau tymor hir. Nid yw'r term yn cynnwys buddsoddiadau mewn cronfeydd pensiwn neu mewn cronfeydd ymddiriedol. Mae trefniadau rheoleiddio ar wahân ar eu cyfer ac felly nid yw'r canllaw hwn yn ymdrin â nhw. O ran unrhyw fuddsoddiadau a wneir yn unol ag Adran 12(b) Deddf 2003 (at ddibenion rheoli eu materion ariannol yn ddarbodus) bydd awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth ddyledus i ofynion côd CIPFA Treasury Management in the Public Services: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Notes a'r Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities a byddant yn rhoi blaenoriaeth i hylifedd a diogelwch y buddsoddiadau hynny.

5. Ystyr buddsoddiad tymor hir yw unrhyw fuddsoddiad ac eithrio un y pennir mewn contract bod yn rhaid ei dalu o fewn 12 mis neu un y gall yr awdurdod lleol sy'n ei wneud fynnu ei fod yn cael ei ad-dalu neu ei adfer o fewn 12 mis wedi'r buddsoddiad.

6. Bydd asiantaeth statws credyd yn un o'r tri chwmni canlynol: Standard and Poor's; Moody's Investors Service Limited; Fitch Ratings Limited.

**Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol**

7. Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, bydd yr awdurdod lleol yn llunio Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Gall ei newid unrhyw bryd. Rhaid i'r Strategaeth, unrhyw newidiadau a threfniadau dirprwyo priodol gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn (neu ar lefel gyfatebol mewn awdurdod heb Gyngor) a byddant ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

8. Bydd y Strategaeth yn disgrifio polisïau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiadau diogel a hylifol yn hytrach nag ar wneud elw. I'r perwyl hwnnw, rhaid i'r Strategaeth ymdrin yn benodol â'r materion a ddisgrifir ym mharagraffau 10, 11 a 12 y canllaw hwn.

**Diogelwch Buddsoddiadau**

**Buddsoddiadau Penodedig**

9. Mae buddsoddiad yn fuddsoddiad penodedig os yw'n bodloni'r amodau isod.

- Mae'r buddsoddiad yn cael ei wneud mewn sterling a rhaid i unrhyw daliadau neu ad-daliadau mewn cysylltiad â'r buddsoddiad gael eu gwneud mewn sterling.
- Nid yw'r buddsoddiad yn un tymor hir (fel ag a ddiffinnir ym mharagraff 5).
- Nid yw'r buddsoddiad yn golygu caffael cyfalaf cyfrannau neu gyfalaf benthyg unrhyw gorff corfforedig fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifiaeth) (Diwygio) (Cymru) 2004.
- Mae'n bodloni un o'r amodau isod neu'r ddau:
    - Bod y buddsoddiad yn cael ei wneud gyda Llywodraeth y DU neu ag awdurdod lleol (fel ag y'i diffinnir yn adran 23 Deddf 2003) neu awdurdodau lleol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon neu gyngor plwyf neu gyngor cymuned.
    - Bod y buddsoddiad yn cael ei wneud gyda chorff neu gynllun buddsoddi sydd â statws credyd uchel wedi'i roi iddo gan asiantaeth asesu statws credyd (fel ag y'i diffinir ym mharagraff 6).
- Mae'r prif swm i'w ad-dalu wedi iddo aeddfedu yr un faint â'r swm a fuddsoddwyd ar y cychwyn ac eithrio buddsoddiadau yn Llywodraeth y DU.

10. At bwrpas paragraff 9(d)(ii) uchod, bydd y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn datgan:

- sut y caiff statws credyd uchel ei ddiffinio at ddiben y categorïau buddsoddi y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol.
- bod y statws credyd yn mynd i gael ei fonitro a'r hyn y dylid ei wneud os bydd y statws yn newid.

**Buddsoddiadau Amhenodedig**

11. O safbwynt buddsoddiadau amhenodedig (h.y. y rheini nad ydynt yn bodloni'r diffiniad ym mharagraff 9), bydd y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn:

- yn rhestru'r gweithdrefnau ar gyfer penderfynu pa gategorïau buddsoddi y byddai'n ddarbodus eu defnyddio. Rhaid gwneud y buddsoddiadau hyn mewn sterling a rhaid i unrhyw daliadau neu ad-daliadau mewn cysylltiad â'r buddsoddiad gael eu gwneud mewn sterling.
- nodi pa gategorïau buddsoddi sydd hyd yma wedi'u nodi fel rhai darbodus i'w defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol.
- nodi uchafswm y buddsoddiad y gellir ei gadw ym mhob categori ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol (gellir diffinio'r uchafswm hwn naill ai trwy ei fynegi fel swm o arian neu fel canran cyfanswm buddsoddiadau'r awdurdod lleol) a therfyn cyffredinol ar fuddsoddiadau amhenodedig.

**Hylifedd Buddsoddiadau**

12. Bydd y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer penderfynu ar y cyfnodau hwyaf y gellir yn ddarbodus ymrwymo arian.

**Cynghorau Cymuned ac Ymddiriedolwyr Siarter**

13. Bydd pob cyngor cymuned ac ymddiriedolwr siarter yn rhoi ystyriaeth ddyledus i’r canllaw hwn ac yn rhoi blaenoriaeth i hylifedd a diogelwch yn hytrach nag elw ar unrhyw fuddsoddiad a wneir. Dylai pob cyngor cymuned ac ymddiriedolwr siarter:

- gytuno ar ei Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol cyn dechrau’r flwyddyn ariannol o leiaf. Gellir gwneud hyn wrth bennu’r gyllideb
- cytuno ar derfynau priodol ar gyfer pob categori o fuddsoddiad y mae’n bwriadu’i wneud
- sicrhau bod pob buddsoddiad mewn arian Sterling.

14. Mae paragraffau 2-12 yn gymwys i Gynghorau Cymuned ac Ymddiriedolwyr Siarter a chanddynt fuddsoddiadau cyfartalog blynyddol neu gyfansymiol cyfwerth â £500,000 ac yn uwch na hynny.

15. Mae paragraffau 2-12 y canllaw hwn yn gymwys i Gynghorau Cymuned ac Ymddiriedolwyr Siarter a chanddynt incwm wedi’i gyllidebu o £500,000 a nodir yn rheoliad 6 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996 (O.S. 1996/590).

**ATODIAD A**

# DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2008/09.

## 1. Cyflwyniad

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 a rheoliadau cefnogol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor 'dalu sylw' i'r Côd Darbodus ac i bennu Dangosyddion Darbodus ar gyfer y tair blynedd nesaf er mwyn sicrhau fod cynlluniau buddsoddiad cyfalaf y Cyngor yn fforddiadwy, gochelgar a chynaliadwy.

Mae'r Ddeddf, felly, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio strategaeth trysorlys ar gyfer benthyca a pharatoi Strategaeth Fuddsoddiad Flynyddol; bydd hyn yn llunio polisïau'r Cyngor ynghylch rheoli buddsoddiadau, ac yn rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd y buddsoddiadau hynny.

Mae'r strategaeth arfaethedig ar gyfer 2008/09, yng nghyswllt agweddau swyddogaeth rheoli'r trysorlys, sy'n seiliedig ar olwg gyfredol ar gyfraddau llog, wedi ei hychwanegu at ragolygon marchnad arweiniol a ddarparwyd gan ymgynghorydd trysorlys y Cyngor. Mae'r strategaeth yn ymdrin â:

- cyfyngiadau'r trysorlys sydd mewn lle er mwyn cyfyngu ar y risg i'r trysorlys a gweithgareddau'r Cyngor;
- Dangosyddion Darbodus;
- sefyllfa gyfredol portffolio rheoli'r trysorlys;
- gofynion benthyca;
- y rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog;
- y strategaeth fenthyca;
- aildrefnu dyledion;
- y strategaeth fuddsoddi blynyddol.

Mae'n ofyniad statudol o dan Adran 33 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, i'r Cyngor baratoi cyllideb fantoledig. Yn arbennig, mae Adran 32 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gyfrifo yr hyn y bydd ei angen yn y gyllideb ymhob blwyddyn ariannol gan gynnwys costau refeniw sy'n ganlyniad i benderfyniadau ariannu cyfalaf. Golyga hyn y dylid cyfyngu gwariant cyfalaf i lefel ble y cyfyngir y cynnydd mewn taliadau refeniw i lefel sydd yn fforddiadwy i'r Cyngor yn dilyn:-

- Cynnydd mewn cyfraddau llog a achosir gan gynnydd mewn benthyca er mwyn ariannu gwariant cyfalaf ychwanegol, ac
- Unrhyw gynnydd mewn costau rhedeg prosiectau cyfalaf newydd.

## 2. Cyfyngiadau'r Trysorlys ar gyfer 2008/09 i 2010/11

Mae'n ddyletswydd statudol yn Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a rheoliadau cefnogol, i bennu ac adolygu faint y gall y Cyngor fforddio ei fenthyca. Cyfeirir at y swm hwn fel "Terfyn Benthyca awdurdodedig".

Mae'n rhaid i'r Cyngor dalu sylw i'r Côd Darbodus wrth lunio'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig, sydd yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau fod cyfanswm buddsoddiad cyfalaf yn aros o fewn cyfyngiadau cynaliadwy, ac yn arbennig, fod yr effaith ar ddyfodol lefelau treth cyngor a rhent cyngor yn 'dderbyniol'.

Er mai Terfyn Benthyca Awdurdodedig yw'r term a bennwyd, gellir ariannu cynlluniau cyfalaf wrth fenthyca'n allanol ac wrth ddefnyddio mathau eraill o rwymedigaethau, megis trefniadau credyd. Bwriedir pennu'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig, ar sail dreigl, ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol.

## 3. Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2008/09 – 2010/11

Mae'r dangosyddion darbodus a ganlyn (yn nhabl 2 isod) yn berthnasol at ddibenion pennu strategaeth gyfun i reoli'r trysorlys.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor hefyd nodi a yw wedi mabwysiadu Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys. Mabwysiadwyd hyn gan y Cyngor Llawn ar 4 Mawrth 2004.

| DANGOSYDD DARBODUS | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|---|---|
| **(1). RHAN O ADRODDIAD DANGOSYDDION DARBODUS** | **gwir** | **amcan** | **amcan** | **amcan** | **amcan** |
| **Gwariant Cyfalaf** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cronfa Gyffredinol | 33,432 | 35,077 | 43,447 | 29,832 | 22,955 |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 5,628 | 6,200 | 5,600 | 5,600 | 5,600 |
| **CYFANSWM** | **39,060** | **41,277** | **49,047** | **35,432** | **28,555** |
| **Cymhareb costau ariannu i lif refeniw net** | | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 4.94% | 4.42% | 4.94% | 4.96% | 4.76% |
| CRT | 12.06% | 10.02% | 8.39% | 7.05% | 5.78% |
| **Gofyn Cyllido Cyfalaf fel ar 31 Mawrth** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cronfa Gyffredinol | 137,786 | 140,572 | 142,407 | 144,124 | 145,764 |
| CRT | 16,991 | 15,445 | 13,930 | 12,445 | 10,989 |
| **CYFANSWM** | **154,777** | **156,017** | **156,337** | **156,569** | **156,753** |
| **Effaith ychwanegol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf.** | | | **£** | **£** | **£** |
| Cynnydd blynyddol yn nhreth y cyngor (band D)* | - | - | £1.74 | £7.70 | £14.20 |
| Cynnydd yng nghyfartaledd y rhent tai wythnosol. | - | - | £0 | £0 | £0 |

| DANGOSYDD DARBODUS | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|---|---|
| **(2). DANGOSYDDION DARBODUS RHEOLI'R TRYSORLYS** | **gwir** | **amcan** | **amcan** | **amcan** | **amcan** |
| **Terfyn Awdurdodedig ar gyfer dyled allanol -** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| benthyca | 170,000 | 170,000 | 170,000 | 170,000 | 170,000 |
| ymrwymiadau hirdymor eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFANSWM | 170,000 | 170,000 | 170,000 | 170,000 | 170,000 |
| **Ffîn Weithredol ar gyfer dyled allanol -** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| benthyca | 165,000 | 165,000 | 165,000 | 165,000 | 165,000 |
| ymrwymiadau hirdymor eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFANSWM | 165,000 | 165,000 | 165,000 | 165,000 | 165,000 |
| **Y terfyn uchaf ar gyfer y gyfradd llog sefydlog** | | | | | |
| Llog net ynghylch benthyca ar raddfa sefydlog | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| **Y terfyn uchaf ar gyfer y gyfradd llog gyfnewidiol** | | | | | |
| Llog net ynghylch benthyca ar raddfa gyfnewidiol | 50% | 50% | 50% | 50% | 50% |
| **Terfyn uchaf ar gyfer cyfanswm symiau a fuddsoddir am gyfnod tros flwyddyn.** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| (fesul dyddiad aeddfediad) | 0 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 |

| **Trefn Aeddfediad benthyca yn ystod 2008/09** | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf |
|---|---|---|
| o fewn 12 mis | 15% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 15% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 23% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 26% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 90% | 22% |

**4. <u>Sefyllfa Portffolio Rheolaeth Trysorlys Presennol y Cyngor</u>**

Mae amcangyfrif o sefyllfa portffolio trysorlys y Cyngor fel a ganlyn:

| | | **Prifswm £'000** | **Cyfradd Gyfartalog** |
|---|---|---|---|
| Benthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar Fawrth 31 2008 | BBGC* | 149,194 | 6.12% |
| Benthyciadau Cyfradd Newidiol fel ar Fawrth 31 2008 | BBGC* | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyled fel ar 31 Mawrth 2008** | | **149,194** | **6.12%** |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau fel ar 31 Ionawr, 2008** | | **83,125** | **5.82%** |

***BBGC – Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus**

## 5. Gofynion Benthyca

Mae'r gofynion benthyca yn cynnwys y potensial i gyllido cynlluniau o dan y Côd Darbodus.

| | 2006/07<br>gwir<br>£'000 | 2007/08<br>amcan<br>£'000 | 2008/09<br>amcan<br>£'000 | 2009/10<br>amcan<br>£'000 | 2010/11<br>amcan<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca newydd | 0 | 0 | 5,000 | 3,000 | 4,000 |
| Trefniadau cyllido eraill* | 923 | 2,135 | 2,500 | 2,500 | 2,500 |
| Cyfnewid benthyciadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFANSWM | 923 | 2,135 | 7,500 | 5,500 | 6,500 |

*Prydlesu. (Dylid cynnal arfarniad opsiynau er mwyn sicrhau fod prydlesu'n parhau i ddarparu manteision ariannol i'r Cyngor. Os nad yw hyn yn digwydd, mae angen sicrhau y gwneir darpariaeth addas ar gyfer hyn yn y rhaglen gyfalaf. Mae angen gwneud darpariaethau ar gyfer cynlluniau cyfalaf eraill hefyd. Oherwydd hyn gwnaed darpariaeth o £2.5m y flwyddyn ar gyfer 2008/09, 2009/10 a 2010/11.)

## 6. Rhagolygon Cyfraddau Llog.

Comisiynwyd 'Sector Treasury Services' gan y Cyngor i ddarparu cyngor ar faterion rheoli'r trysorlys. Rhan o'u gwasanaeth yw cynorthwyo'r Cyngor i ffurfio barn ar gyfraddau llog. Mae **Atodiad Ch** yn casglu ynghyd nifer o ragolygon y Ddinas ar gyfer cyfraddau llog tymor byr neu newidiol (y gyfradd sylfaenol) a sefydlog hirach. Mae'r tabl a ganlyn yn dangos barn ganolog Sector.

**Golwg Sector: Rhagolwg Cyfradd Llog -** 24 Rhagfyr 2007

| | Ch1 2008 | Ch2 2008 | Ch3 2008 | Ch4 2008 | Ch1 2009 | Ch2 2009 | Ch3 2009 | Ch4 2009 | Ch1 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd sylfaenol** | 5.25% | 5.00% | 5.00% | 5.00% | 5.00% | 5.00% | 5.00% | 5.00% | 5.00% |
| **Cyfradd 10 mlynedd BBGC** | 4.70% | 4.60% | 4.55% | 4.55% | 4.55% | 4.55% | 4.60% | 4.70% | 4.75% |
| **Cyfradd 25 mlynedd BBGC** | 4.60% | 4.55% | 4.55% | 4.50% | 4.55% | 4.55% | 4.60% | 4.65% | 4.70% |
| **Cyfradd 50 mlynedd BBGC** | 4.50% | 4.45% | 4.45% | 4.45% | 4.45% | 4.45% | 4.50% | 4.50% | 4.55% |

## 7. Y Strategaeth Fenthyca

Mae rhagolygon Sector fel a ganlyn:

- Disgwylir i gyfradd 50 mlynedd BBGC ostwng fymryn o 4.50% yn Ch1 2008 i 4.45% yn Ch2 2008 cyn cynyddu eto i 4.50% yn Ch3 2009 ac i 4.55% yn Ch1 2010.
- Disgwylir i gyfradd 25 mlynedd BBGC ostwng yn gynyddol o 4.65% i gyrraedd 4.50% yn Ch4 2008 ac i gynyddu yn Ch1 2009 nes cyrraedd 4.70% yn Ch1 2010.
- Disgwylir i gyfradd 10 mlynedd BBGC ostwng o 4.70% yn Ch1 2008 i 4.55% yn Ch3 2008 ac i godi'n raddol o Ch3 2009 nes cyrraedd 4.65% yn Ch1 2010.

Mae'r rhagolwg yn dynodi, felly, y dylid llunio strategaeth benthyca i fenthyg dros gyfnod hir ar gyfer 2008/09 a hynny tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Disgwylir i fenthyca cyfradd newidiol fod yn ddrytach na benthyca sefydlog tymor hir ac felly'n llai dymunol yn ystod y flwyddyn ariannol o gymharu â benthyca tymor hir.

O ystyried y cefndir hwn dylid bod yn ofalus gyda gweithrediadau'r trysorlys yn ystod 2008/09. Bydd y Pennaeth Cyllid yn monitro'r farchnad gyfraddau llog a chymryd agwedd bragmataidd tuag at unrhyw newid mewn amgylchiadau.

**Sensitifrwydd y rhagolygon** - Mae'n debygol mae'r ddau senario isod fydd prif faterion cynhennus y rhagolwg. Bydd Swyddogion y Cyngor, gyda chymorth ymgynghorwyr y trysorlys yn monitro'r cyfraddau llog yn bennaf ynghyd â rhagolygon y farchnad, yn barhaus, gan fabwysiadu'r ymatebion isod pan fo newid mewn rhagolwg:

- *Os teimlir fod yna risg arwyddocaol o gynnydd sydyn mewn cyfraddau hir a byr dymor*, bydd angen ailystyried sefyllfa'r portffolio gyda'r gweithrediad tebygol y bydd ariannu cyfradd sefydlog yn cael ei lunio tra bod cyfraddau llog yn parhau yn eithaf rhad.

- *Os teimlir fod yn risg arwyddocaol o ostyngiad sydyn mewn cyfraddau hir a byr dymor*, yna fe ohirir y benthyciadau hir dymor, ac fe ystyrir aildrefnu ariannu cyfradd sefydlog er mwyn ariannu cyfradd fer.

## 8. Aildrefnu Dyledion

Bu i gyflwyno gwahanol gyfraddau BBGC ar 1 Tachwedd 2007 ar gyfer benthyca newydd o gymharu ag ad-dalu dyled yn gynnar, a llunio taeniad rhwng y ddwy gyfradd (tua 40-50 o bwyntiau sail ar gyfer y cyfnodau hiraf gan leihau yn araf i 25-30 o bwyntiau sail ar gyfer benthyciadau byr), olygu fod aildrefnu dyled o BBGC i BBGC yn llawer llai dymunol nag yr oedd cyn y dyddiad hwnnw.

Ymhlith y rhesymau dros unrhyw aildrefnu bydd:
- arbed arian ar isafswm risg;
- helpu i gyflawni'r strategaeth a amlinellir ym mharagraff 7 uchod; a
- gwella cydbwysedd y portffolio (newid y proffil aeddfedu a/neu gydbwysedd yr ansefydlogrwydd).

Adroddir wrth yr Arweinydd Portffolio yn dilyn unrhyw weithrediad ynghylch aildrefnu, bydd yntau yn adrodd yn ôl i'r bwrdd os ystyrir fod y mater yn ddigon sylweddol i wneud hynny.

## 9. Y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

### 9.1 Polisi Buddsoddi

Mae'r Cyngor yn talu sylw i Gyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Cyfarwyddyd"), a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus ("Côd RHT CIPFA) a Rheoliadau 2004 SI 1010(W.107). (Arian Cyfalaf a Chyfrifo) (Cymru) (Addasiad) yr Awdurdodau Lleol.

Amcan polisi cyffredinol y Cyngor yw bod yn ddarbodus wrth fuddsoddi balansau'r trysorlys. Mae gwarantu cyfalaf a hylifedd buddsoddiadau yn hytrach na'u cynnyrch yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn anelu i wneud yr elw mwyaf posibl ar ei fuddsoddiadau yn gyfesur â lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd.

Mae benthyca arian yn unswydd er mwyn ei fuddsoddi a gwneud elw yn anghyfreithlon ac ni fydd y Cyngor yma yn ymrwymo i weithgaredd o'r fath. Mae'r offerynnau buddsoddi sydd wedi eu dynodi ar gyfer eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol wedi eu rhestru isod o dan y categorïau buddsoddiadau;'Penodedig' a 'Amhenodedig'. Mae'r cyfyngiadau ar y gwrthbartïon fel a osodwyd allan yn Atodlenni Ymarferion Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

**<u>Buddsoddiadau Penodedig:</u>**
Defnyddir Sterling ar gyfer pob buddsoddiad o'r fath, gydag aeddfediad o hyd at flwyddyn ar y mwyaf, gan gyrraedd y isafswm meini prawf credyd 'uchel' ble'n berthnasol.

| | Isafswm Meini Prawf Credyd 'Uchel' | Defnydd | Uchafswm Cyfnod |
|---|---|---|---|
| Adneuon Cyfnod Penodol gyda Llywodraeth Leol | Diogel iawn er nad ydi Awdurdodau Lleol yn cael eu hasesu ar gyfer statws credyd. | Mewnol | 3 mis |
| Adneuon Cyfnod Penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu gan gynnwys adneuon galwadwy gydag aeddfediad llai na blwyddyn. | Isafswm F1 (Fitch) neu P1 (Moody's), tymor byr wedi ei gefnogi gan statws credyd isafswm tymor hir sef A- (Fitch) neu A3 Moody. | Mewnol | Blwyddyn |

**<u>Buddsoddiadau Amhenodedig:</u>**
Bydd uchafswm o £20 miliwn i'w fuddsoddi mewn buddsoddiadau amhenodedig**.**

| | Isafswm Meini Prawf Credyd | Defnydd | Uchafswm £ o'r holl fuddsoddiadau | Uchafswm Cyfnod Aeddfedu |
|---|---|---|---|---|
| Adneuon Cyfnod Penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu gan gynnwys adneuon galwadwy gydag aeddfediad hwy na blwyddyn | Pan fo'n amser lleoli adneuon am gyfnodau hwy na blwyddyn, bydd swyddogion yn sicrhau fod y statws credyd hir dymor un ai yn AA (Fitch) neu Aa2 (Moody's) neu'n uwch na hyn. | Mewnol | £20 miliwn | 3 mlynedd |

Mae'r Cyngor yn defnyddio statws credyd a gyhoeddwyd gan Fitch. Fodd bynnag, os nad oes gan wrthbarti statws Fitch, bydd statws Moody yn cael ei ddefnyddio. Bydd pob statws credyd yn cael ei fonitro'n fisol. Os yw statws credyd gwrthbarti yn cael ei israddio ac o ganlyniad ddim yn cyrraedd gofynion lleiafswm y Cyngor, bydd unrhyw ddefnydd arfaethedig o'r gwrthbarti hwnnw fel buddsoddiad newydd yn cael ei wrthod yn syth.

**9.2 Strategaeth Fuddsoddi**

Mae cyllid y Cyngor sydd yn cael ei reoli'n fewnol yn cael ei ariannu o lif-arian parod y Cyngor ac mae'r balans craidd ar gael ar gyfer ei fuddsoddi dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd. Yn unol â hynny, bydd buddsoddiadau yn cael eu gwneud wrth gyfeirio at y balans craidd, gofynion llif-arian a rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog tymor byr (h.y. cyfraddau ar gyfer buddsoddiadau hyd at flwyddyn).

Gan roi ystyriaeth i lefel balans arian parod y Cyngor dros y tair blynedd nesaf, yr angen am hylifedd, ei ymrwymiadau gwario, a darpariaeth ar gyfer cynlluniau wrth gefn, mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylid cadw £20 miliwn o'i falans arian mewn buddsoddiadau heb fod yn benodedig (h.y. buddsoddiadau tymor hir gydag aeddfedrwydd hwy na blwyddyn) yn ystod y flwyddyn.

Mae **ATODIAD B** yn dangos Meini Prawf presennol y Cyngor a dengys rhestr o wrthbartïon cymeradwy cyfredol ac arfaethedig yn **ATODIAD C.**

Mae Sector yn rhagweld y bydd y gyfradd sylfaenol yn disgyn i 5.25% yn Ch1 2008 ac eto i 5.00% yn Ch2 2008. Yna bydd disgwyl iddo beidio â newid am y ddwy flynedd nesaf. Bydd y Cyngor, felly, yn ymgeisio i gloi buddsoddiadau cyfnodau hir ar gyfraddau llog uwch cyn i'r gostyngiad ddechrau ar gyfer yr elfen o'i bortffolio buddsoddi sy'n cynrychioli ei falansau craidd.

**9.3 Adroddiad Buddsoddiad Diwedd Blwyddyn.**

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd y Cyngor yn adrodd ar ei weithgaredd fuddsoddi fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Trysorlys.

## Rhan 1 – MEINI PRAWF AR GYFER CREDYD

| **Banciau Prydain Fawr a'u His-Gwmnïau** | **Uchafswm** | **Uchafswm Cyfnod** |
|---|---|---|
| Isafswm cyfnod byr o F1 (Fitch) neu P1 (Moody's), wedi ei gefnogi gydag isafswm statws credyd tymor hir o AA (Fitch) neu Aa2 (Moody's). | £10m | 3 blynedd |
| Isafswm cyfnod byr o F1 (Fitch) neu P1 (Moody's), wedi ei gefnogi gydag isafswm statws credyd tymor hir o A+ (Fitch) neu A1 (Moody's). | £7.5m | 2 flynedd |
| Isafswm cyfnod byr o F1 (Fitch) neu P1 (Moody's), wedi ei gefnogi gydag isafswm statws credyd tymor hir o A- (Fitch) neu A3 (Moody's) | £5m | 1 flwyddyn |

| **Awdurdodau Lleol y D.U.** | **Uchafswm** | **Uchafswm Cyfnod** |
|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol y D.U. | £5m | 3 mis |

| **Banciau Tramor** | **Uchafswm** | **Uchafswm Cyfnod** |
|---|---|---|
| Isafswm cyfnod byr o F1 (Fitch) neu P1 (Moody's), wedi ei gefnogi gydag isafswm statws credyd tymor hir o AA (Fitch) neu Aa2 (Moody's). | £10m | 3 blynedd |
| Isafswm cyfnod byr o F1 (Fitch) neu P1 (Moody's), wedi ei gefnogi gydag isafswm statws credyd tymor hir o AA- (Fitch) neu Aa3 (Moody's). | £7.5m | 2 flynedd |
| Isafswm cyfnod byr o F1 (Fitch) neu P1 (Moody's), wedi ei gefnogi gydag isafswm statws credyd tymor hir o A+ (Fitch) neu A1 (Moody's). | £5m | 1 flwyddyn |

## RHESTR O WRTHBARTION CYMERADWY CYNGOR GWYNEDD

| **Banciau'r Deyrnas Unedig a'u Is-Gwmnïau** | **Uchafswm a Argymhellir £m** | | **Cyfyngiad ar Gyfnod y Buddsoddiad** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2008/09** | **2007/08** | **2008/09** | **2007/08** |
| Abbey National Group:- | | | | |
| Abbey PLC. | 7.5 | (7.5) | 2 flynedd | (2 flynedd) |
| Abbey National Treasury Services PLC | 7.5 | (7.5) | 2 flynedd | (2 flynedd) |
| Alliance & Leicester PLC. | 7.5 | (7.5) | 2 flynedd | (2 flynedd) |
| Bank of New York Europe Limited | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Barclays Group:- | | | | |
| Barclays Bank PLC | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| Bradford & Bingley | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Bristol & West | 7.5 | (7.5) | 2 flynedd | (2 flynedd) |
| Citibank International PLC | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| Close Brothers Ltd. | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Clydesdale Bank (berchen yn llawn gan y National Australia Bank) | 7.5 | (7.5) | 2 flynedd | (2 flynedd) |
| Co-operative Bank Plc | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Credit Suisse International | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Egg Banking | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| HBOS Group:- | | | | |
| Bank of Scotland | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| HBOS Treasury Services | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| Halifax Plc | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| Heritable Bank | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| HSBC | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| Lloyds TSB Group:- | | | | |
| Cheltenham & Gloucester PLC | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Lloyds TSB Bank PLC | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| **Northern Rock Plc** | **0** | **(7.5)** | **0** | **(2 flynedd)** |
| Singer and Friedlander Ltd. | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Standard Life Bank Ltd | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| The Royal Bank of Scotland Group:- | | | | |
| National Westminster Bank PLC | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| Royal Bank of Scotland | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| Ulster Bank Ltd | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |

**NODYN:**

1) **Ar y pryd y gwneir buddsoddiadau am gyfnod mwy na 1 flwyddyn , bydd y swyddogion yn sicrhau bod statws credyd tymor hir y banciau uchod yn AA neu uwch.**
2) **Mae cyfyngiad o £15miliwn ar fanciau sydd yn perthyn i'r un grŵp o fanciau.**

| **Cymdeithasau Adeiladu y Deyrnas Unedig** | **Uchafswm a Argymhellir £m** | | **Cyfyngiad ar Gyfnod y Buddsoddiad** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2008/09** | **2007/08** | **2008/09** | **2007/08** |
| Nationwide | 7.5 | (7.5) | 2 flynedd | (2 flynedd) |
| Britannia | 7.5 | (7.5) | 2 flynedd | (2 flynedd) |
| Yorkshire | 7.5 | (7.5) | 2 flynedd | (2 flynedd) |
| Coventry | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| **Scarborough** | **5.0** | **(0)** | **1 flwyddyn** | **(0)** |
| Skipton | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Principality | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Chelsea | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Derbyshire | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Dunfermline | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Leeds | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Cheshire | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Norwich & Peterborough | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Newcastle | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| West Bromwich | 5.0 | (5.0) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |

| **Awdurdodau Lleol y Deyrnas Unedig** | **Uchafswm a Argymhellir £m** | | **Cyfyngiad ar Gyfnod y Buddsoddiad** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2008/09** | **2007/08** | **2008/09** | **2007/08** |
| Holl Awdurdodau Lleol y DU | 5.0 | (5.0) | 3 mis | (3 mis) |

| **Gwlad** | **Canghennau'r Deyrnas Unedig o Fanciau Tramor** | **Uchafswm a Argymhellir £m** | | **Cyfyngiad ar Gyfnod y Buddsoddiad** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2008/09** | **2007/08** | **2008/09** | **2007/08** |
| Awstralia | National Australia Bank Ltd | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| Gwlad Belg | Dexia Bank | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| Ffrainc | Dexia Credit Local | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| Yr Almaen | Deutsche Bank AG | 7.5 | (7.5) | 2 flynedd | (2 flynedd) |
| Yr Almaen | HSH Nordbank | 5.00 | (5.00) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Gwlad yr Iâ | Glitnir Banki | 5.00 | (5.00) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Yr Eidal | Banca Monte dei Paschi di Siena | 5.00 | (5.00) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Lwcsembwrg | Dexia Bank Belgium | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| Iseldiroedd | Rabobank International | 10.0 | (10.0) | 3 blynedd | (3 blynedd) |
| Gwerin. Iwerddon | Allied Irish Banks PLC | 7.5 | (7.5) | 2 flynedd | (2 flynedd) |
| Gwerin. Iwerddon | Anglo Irish Bank Corporation | 5.0 | (5.00) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Gwerin. Iwerddon | Bank of Ireland | 7.5 | (7.5) | 2 flynedd | (2 flynedd) |
| **Gwerin. Iwerddon** | **DePfa Bank** | **7.5** | **(0)** | **2 flynedd** | **(0)** |
| Gwerin. Iwerddon | Irish Life & Permanent plc | 5.0 | (5.00) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Gwerin. Iwerddon | Irish Intercontinental Bank | 5.0 | (5.00) | 1 flwyddyn | (1 flwyddyn) |

**NODYN:**

1) **Ar y pryd y gwneir buddsoddiadau am gyfnod mwy na 1 flwyddyn, bydd y swyddogion yn sicrhau bod statws credyd tymor hir cymdeithasau adeiladu Prydain Fawr, awdurdodau lleol a'r banciau tramor uchod yn AA neu uwch.**
2) **Mae cyfyngiad o £15miliwn ar y 3 banc sy'n rhan o Grwp o Fanciau Dexia.**

# RHAGOLYGON I RADDFEYDD LLOG

Dengys y data isod amrywiaeth o ragolygon a gyhoeddwyd gan nifer o sefydliadau. Rhagolygon unigol gan UBS a Capital Economics (ymgynghorwyr rhagolygon annibynnol) yw'r ddau gyntaf. Ffigyrau wedi'u crynhoi ac a dynnwyd o boblogaeth holl brif fanciau'r Ddinas a'r sefydliadau academaidd yw'r un olaf.

Rhagolygon **UBS** o'r gyfradd llog (am y chwarter yn dod i ben) – 7 Ionawr 2008

| | Ch1 2008 | Ch2 2008 | Ch3 2008 | Ch4 2008 | Ch1 2009 | Ch2 2009 | Ch3 2009 | Ch4 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Sylfaenol** | 5.25% | 5.00% | 4.75% | 4.50% | 4.50% | 4.50% | 4.50% | 4.50% |
| **BBGC 10 mlynedd** | 4.75% | 4.70% | 4.70% | 4.65% | 4.65% | 4.65% | 4.65% | 4.70% |
| **BBGC 25 mlynedd** | 4.60% | 4.60% | 4.65% | 4.55% | 4.55% | 4.55% | 4.55% | 4.60% |
| **BBGC 50 mlynedd** | 4.43% | 4.50% | 4.60% | 4.55% | 4.60% | 4.65% | 4.65% | 4.70% |

Rhagolygon **Capital Economics** o'r gyfradd llog - 12 Rhagfyr 2007

| | Ch1 2008 | Ch2 2008 | Ch3 2008 | Ch4 2008 | Ch1 2009 | Ch2 2009 | Ch3 2009 | Ch4 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Sylfaenol** | 5.25% | 5.00% | 4.75% | 4.50% | 4.25% | 4.00% | 4.00% | 4.00% |
| **BBGC 5 mlynedd** | 4.45% | 4.35% | 4.05% | 3.95% | 4.05% | 4.25% | 4.35% | 4.75% |
| **BBGC 10 mlynedd** | 4.45% | 4.25% | 4.15% | 4.15% | 4.25% | 4.45% | 4.65% | 4.85% |
| **BBGC 25 mlynedd** | 4.55% | 4.45% | 4.45% | 4.35% | 4.45% | 4.55% | 4.75% | 4.95% |
| **BBGC 50 mlynedd** | 4.55% | 4.45% | 4.35% | 4.25% | 4.35% | 4.55% | 4.65% | 4.75% |

**Trysorlys ei Mawrhydi** – Tachwedd 2007 – crynodeb o farn 24 o ddadansoddwyr y Ddinas a 13 o ddadansoddwyr academaidd am Chwarter 4 2007 a 2008. (mae 2009 – 2011 wedi'u selio ar 21 o ragolygon).

| | Chwarter yn gorffen | | Cyfartaledd Blynyddol y Gyfradd Sylfaenol | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagolygon y Gyfradd Sylfaenol | Ch4 2007 | Ch4 2008 | cyf. 2009 | cyf. 2010 | cyf. 2011 |
| **Canolrif** | 5.80% | 5.30% | 5.24% | 5.22% | 5.26% |
| **Uchafswm** | 5.80% | 6.30% | 6.00% | 6.00% | 6.00% |
| **Lleiafswm** | 5.30% | 4.80% | 4.50% | 4.06% | 4.00% |